SFLSCM127

Monitro llif cyflenwadau yn y gadwyn gyflenwi

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro llif cyflenwadau yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n cynnwys cydgrynhoi a dadansoddi gwybodaeth yn ymwneud â llif cyflenwadau. Mae hefyd yn cynnwys nodi problemau, rhoi canlyniadau dadansoddiadau, a gwneud argymhellion yn ymwneud â llif cyflenwadau.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr cadwyn gyflenwi. Gallai hyn fod, er enghraifft, mewn rolau prynu, gweithrediadau logisteg llwythi neu reoli trafnidiaeth.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cadarnhau gwybodaeth am y **cyflenwadau** sydd yn llifo trwy'r **gadwyn gyflenwi**
2. dadansoddi gwybodaeth i fonitro llif **cyflenwadau**
3. nodi ac ymdrin â phroblemau gyda llif **cyflenwadau**
4. rhoi canlyniadau'r dadansoddiad i **gydweithwyr**
5. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer monitro llif **cyflenwadau**

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. nodau strategol, amcanion a gweithgareddau eich sefydliad mewn perthynas â'r **gadwyn gyflenwi**
2. damcaniaethau, modelau ac arferion rheoli **cadwyn gyflenwi**
3. ffynonellau gwybodaeth eich sefydliad am brosesau **cadwyn gyflenwi**
4. sut i ddadansoddi gwybodaeth i fonitro llif **cyflenwadau** yn y **gadwyn gyflenwi**
5. damcaniaethau, modelau ac arferion rheoli gweithrediadau
6. y mathau o broblemau a allai ddigwydd gyda llif **cyflenwadau** yn y **gadwyn gyflenwi**
7. damcaniaethau, modelau ac arferion cyflwyno

Geirfa

Cadwyn gyflenwi: caffaeliad, prynu a chyflenwi, logisteg, trafnidiaeth, a rheoli gweithrediadau, o fewn a rhwng ffiniau rhyngwladol

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Cyflenwadau: unrhyw gyfuniad o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu caffael, eu dosbarthu neu eu storio yn y gadwyn gyflenwi

SFLSCM127

Monitro llif cyflenwadau yn y gadwyn gyflenwi

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2018
Indicative Review Date	Ionawr 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logistics
RCU gwreiddiol	SFLSCM127
Galwedigaethau perthnasol	Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Rheoli Cadwyn Gyflenwi
Geiriau Allweddol	monitro; cyflenwadau; cadwyn gyflenwi